**AC-01-00(cof)**

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 27 Ionawr 2000 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1 |

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol** | **Aelodau** | |
| | Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin DC |
| | Peter Black | Gorllewin DC |
| | Christine Chapman | Cwm Cynon |
| | Geraint Davies | Rhondda |
| | Brian Gibbons | Aberafon |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| | Dafydd Wigley | Caernarfon |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol yng Nghymru |
| | Gillian Body | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| | Phil Gray | Swyddog Cydymffurfio’r Cynulliad Cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth**

**Papur:** AC-01-00(p.1)

1.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth bellach mewn cysylltiad â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol ar *Addysg Bellach yng Nghymru* a gyhoeddwyd ar 23 Gorffennaf 1999.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Andre Morgan | Prifathro, Coleg Ceredigion |
| Allison Coleman | Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, Coleg Ceredigion |
| Brian Robinson | Prifathro a Phrif Weithredwr, Coleg Technoleg a Chelf Sir Gaerfyrddin |
| Patrick Lithgow | Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, Coleg Technoleg a Chelf Sir Gaerfyrddin |

1.2 Atodir trawsgrifiad air am air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**Papur: AC-03-99(cof)**

2.1Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

2.2 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau, yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, ei bod wedi ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd a Chadeirydd Pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol i amlinellu Blaenraglen y Comisiwn Archwilio hyd at Orffennaf 2000. Anfonwyd copi o'r llythyr hefyd at Aelodau'r Comisiwn Archwilio.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Adroddiad y Comisiwn Archwilio ar *Warchod a Chadw'r Dreftadaeth Adeiledig yng Nghymru***

3.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar yr archwiliad hwn a phenderfynu gwahardd y cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi):

*Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod lle:*

*(vi) mae'r pwyllgor yn ymgynghori ar ganlyniadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.*

Cafwyd trafodaeth lawn ar yr adroddiad drafft ac ystyrir nifer o faterion a godwyd gan aelodau yn yr adroddiad terfynol.

3.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.